## 153. Parti Cerdd Dant o dan 25 oed
## Blwyddyn Mas

Cainc 'Llwyndyrus', Owain Siôn, *Ceinciau Llwyndyrus* [Cyhoeddiadau Sain] (122)

Mae'n iawn i ti gael blwyddyn mas a theithio i bedwar ban;
Mae'n iawn i ti gael byw yn fras yn bell o'r un hen fan;
Mae'n iawn i ti gael mynd tu hwnt i stryd ein bywyd bach,
A chwrso sêr a chroesi swnt i flasu'r awyr iach.

Mae'n iawn i ti gael blwyddyn mas a chael dy draed yn rhydd.
Mae'n iawn i ti gael profi ias gwahanol bob un dydd.
Mae'n iawn i ti gael troi dy gefn ar gwmni'r pentre gwag,
A'r un wynebau gwag drachefn a'r un hen sgwrs Gymrâg.

Ond mae hi'n flwyddyn mas i fi wrth aros gartre weth,
A falle dof fi hebddot ti i ddeall beth yw beth.
A falle bydd y filltir sgwâr yn cynnig rhyw help llaw
Am fod fan hyn, fan gwyn a gwâr, mor wyn â'r un man draw.

Ceri Wyn Jones